**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/427/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

Diolch am yr adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni y DU.

Rydych eisoes wedi derbyn fy ymateb i'ch argymhelliad cyntaf ynghylch y broses o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch penderfyniadau sy'n gysylltiedig â Biliau'r DU. O ran eich ail argymhelliad, tynnaf eich sylw at y prosesau a amlinellwyd gennym yn yr ymateb hwnnw. Rydym yn disgwyl ymgysylltiad amserol ac agored gan Lywodraeth y DU ar holl ddeddfwriaeth y DU a allai fod yn berthnasol, yn unol ag ymrwymiadau a wnaed fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol (IGR). Fel y dywedais wrth eich Pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn, ni ddigwyddodd hyn ar gyfer Bil Ynni y DU.

Rwyf am nodi'r camau yr wyf wedi galw amdanynt i sicrhau, lle mae Llywodraeth y DU yn llunio polisi newydd mewn meysydd sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau sero net, gan gynnwys materion fel y rhai a gwmpesir yn Neddf Ynni y DU bellach, bod cyfranogiad ac ymgysylltiad effeithiol â'r gwledydd datganoledig. Mae'r weithred hon yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd gennym wrth ddatblygu Bil Ynni y DU a gwaith ehangach ar sero net.

Yn gyntaf, rwy'n parhau i alw ar Lywodraeth y DU, ar lefel y portffolio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net ac i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol bod angen mwy o waith trawslywodraethol ar y gwaith rhynglywodraethol presennol ar sero net, gan gynnwys ynni. Hefyd, mae angen i Lywodraeth y DU gael mwy o gydnabyddiaeth bod gan faterion a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU oblygiadau sylweddol ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau ynni a sero net ehangach. Rwyf wedi ysgrifennu at y ddau Ysgrifennydd Gwladol yn galw am gryfhau'r strwythurau rhynglywodraethol presennol i wneud y cydweithio hwn yn bosibl. Mae hwn hefyd yn fater yr wyf wedi'i godi gyda'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru gan nodi Bil Ynni y DU fel enghraifft lle nad oedd trefniadau gweithio rhynglywodraethol yn amlwg yn ddigonol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ail, ac yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, amlygodd Bil Ynni y DU fod y setliad datganoli yn llai na chlir mewn rhai meysydd ar ble mae cyfrifoldeb penodol. I gydnabod hyn, rydym wedi cytuno trwy'r IMG ar Sero Net bod grŵp rhynglywodraethol newydd Gwres ac Adeiladau yn cael ei sefydlu i weithio trwy fanylion sut rydym yn datgarboneiddio gwres ac adeiladau mewn ffordd lle mae camau gweithredu ledled gwledydd y DU yn cefnogi ein blaenoriaethau sero net ar y cyd. Bydd hyn yn cefnogi gweithredu Deddf ynni'r DU yn uniongyrchol a gwaith ehangach ar ddatgarboneiddio gwres ac adeiladau.

Er fy mod yn parhau i bryderu'n fawr am y dull y mae Llywodraeth y DU wedi'i gymryd i ddiystyru'r setliad datganoli i fwrw ymlaen â'r Bil heb gydsyniad y Senedd, gallaf adrodd bod nifer o'r ymrwymiadau a wnaeth Llywodraeth y DU i gryfhau'r gofyniad i ymgynghori â'r Llywodraethau Datganoledig yn cael eu gweithredu. Er ein bod ar gamau cyntaf un gweithredu, mae ymgynghori ar waith ar draws nifer o feysydd a gobeithiaf y bydd hyn yn arwain at ddatblygu polisi ystyrlon ar y cyd mewn meysydd lle teimlwn fod y Ddeddf yn gweithredu mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

Rwy'n llwyr werthfawrogi bod gosod ein Memorandwm ar gyfer y Bil hwn mor hwyr yn y broses o graffu effeithiol gan y Senedd yn hynod heriol. Er fy mod yn ailadrodd ein bod wedi gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac atodol cyn gynted ag y gallem yng nghyd-destun penodol y Bil hwn, roedd mwy y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i wneud i ddiweddaru'r Senedd ar ein dadansoddiad a'n gwaith gyda Llywodraeth y DU ar y Bil. Er fy mod yn gobeithio na fyddwn yn y sefyllfa hon eto, rwy'n parhau yn ymrwymedig i sicrhau bod y Senedd a'r pwyllgorau perthnasol yn cael eu diweddaru ar gynnydd i gefnogi craffu effeithiol.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change